



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Sir Gaerfyrddin

**Mencap Cymru
Tŷ Menter
Navigation Park
Aberpennar
CF45 4SN**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/04/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atavnhwrchu ein deunydd yn fanwl gwir a nheidio â'i ddefnyddio mewn cwl-destun

Sir Gaerfyrddin

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	Cymdeithas Frenhinol Mencap
Lleodd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	14/11/2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae Cymdeithas Frenhinol Mencap yn darparu gofal a chymorth i bobl sy'n byw mewn pedwar cynllun byw â chymorth yn Sir Gaerfyrddin.

Darperir y gwasanaeth gan dîm o reolwyr a gweithwyr gofal ymroddedig sydd wedi'u lleoli yn y cynlluniau byw â chymorth. Mae gofal, cymorth a llesiant y bobl wrth wraidd pawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus iawn, yn cael eu cefnogi'n dda ac wedi'u hyfforddi i lefel uchel i'w galluogi i i gyflawni eu rolau. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn siarad yn gadarnhaol iawn am y gweithwyr gofal a'r cymorth y mae eu hanwyliaid yn ei gael.

Mae gwerthoedd y sefydliad yn bwysig iawn i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth ac yn sail i ansawdd uchel y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r tîm uwch-reolwyr gan gynnwys yr Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn rhagorol.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod yn teimlo bod eu hanwyliaid yn ddiogel wrth gael gofal a chymorth yn eu cartref. Gwrandewir ar bryderon a gweithredir arnynt. Mae gwerthoedd y sefydliad yn cefnogi'r rheolwyr a'r staff i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Mae mesurau recriwtio staff cadarn ar waith a rhoddir hyfforddiant sefydlu o ansawdd uchel. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwyllo ac arweiniad rheolaidd i'w cefnogi yn eu rolau. Mae polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ar waith i gefnogi'r staff, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff y staff amrywiaeth o hyfforddiant i'w cynorthwyo yn eu rôl a'u galluogi i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar yr unigolion y maent yn eu cefnogi. Mae'r uwch-reolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn effeithiol.

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth sy'n cefnogi ac yn hybu eu hiechyd a'u lles. Mae'r cofnodion gofal a chymorth a'r asesiadau risg cysylltiedig yn fanwl iawn ac yn cael eu datblygu a'u hadolygu ar y cyd â'r unigolyn a/neu ei gynrychiolwyr. Mae gan y gweithwyr gofal wybodaeth fanwl am y bobl y maent yn eu cefnogi ac maent yn frwdfrydig ac yn angerddol dros weithio yn y gwasanaeth. Caiff gweithwyr iechyd proffesiynol allanol eu cynnwys yn weithredol yn iechyd a llesiant y bobl a gefnogir gan yn y gwasanaeth.

Rhoddir amrywiaeth o gyfleoedd i'r bobl ddatblygu a dysgu sgiliau newydd. Mae'r cynlluniau gofal a chymorth unigol yn adlewyrchu anghenion, dewisiadau a diddordebau'r person yn glir. Mae'r bobl a'u perthnasau yn canmol yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw neu eu hanwyliaid yn fawr.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal gwybodus iawn sy'n angerddol am y bobl y maent yn eu cefnogi ac yn deall eu hanghenion unigol. Ystod yr arolygiad gwelsom y gweithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl ac yn eu cefnogi mewn modd caredig a pharchus. Mae'r staff yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu llafar a dieiriau yn unol ag anghenion unigol y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn glir iawn ynghylch eu cyfrifoldeb i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth a'u cyfrifoldeb i roi gwybod am bryderon.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn canmol y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn fawr, gan gynnwys *“they [staff] are very kind and funny”, “the nature of the care afforded to my daughter is exemplary at all times. Both managers and carers are thoroughly professional and highly skilled in their work. Always sensitive to my daughter's needs and wants, they enable her to live as fully an independent life as possible”* ac *“I am more than happy with the care from the staff and how well they look after my relative”*.

Mae'r cynlluniau gofal a chymorth a'r asesiadau risg cysylltiedig o ansawdd uchel, yn fanwl iawn, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn. Mae'r bobl, eu perthnasau a gweithwyr iechyd proffesiynol yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu'r cynlluniau gofal a chymorth. Mae'r gweithwyr gofal yn deall anghenion unigol y bobl ac yn gallu ymateb i gyflyrau iechyd y bobl yn dda drwy eu gwybodaeth a'r hyfforddiant y maent yn ei gael. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n rhagweithiol gyda gweithwyr iechyd proffesiynol a gwasanaethau iechyd i sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl. Mae ffeil derbyniadau i'r ysbyty wedi'i llunio er mwyn helpu'r staff nyrsio a'r staff meddygol i ddeall y person a'i anghenion gofal a chymorth penodol yn well pan fydd yn rhaid iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty. Dywedodd y rheolwr wrthym ei bod wedi datblygu cysylltiadau da â'r nyrsys cyswllt Anableddau Dysgu yn yr ysbytai er mwyn sicrhau, pan fydd yn rhaid i un o'r bobl a gefnogir gan y gwasanaeth fynd i'r ysbyty, y caiff ei anghenion eu diwallu.

Caiff diddordebau, dymuniadau a dewisiadau unigol y bobl eu deall a'u hyrwyddo gan y rheolwyr a'r staff. Mae gan y bobl eu cludiant eu hunain neu fynediad at gludiant ac maent yn mynd ar wyliau a theithiau i lefydd y maent yn eu hoffi. Caiff gweithgareddau eu dyfeisio a'u strwythuro o amgylch y person fel eu bod yn ystyrllon iddo. Gwelsom fod un person wrth ei fodd â'i gar newydd ac yn edrych ymlaen at fynd allan am dro ynddo yn hwyrach y diwrnod hwnnw. Dywedodd yr unigolyn wrthym, *“I love my new car it looks beautiful”*.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y bobl eu cefnogi gan reolwyr a staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan y sefydliad. Dywedodd y rheolwyr a'r staff wrthym *"I love working for Mencap because of their values, the inductions and training and all the policies, procedures and guidance to support me in my role", "I really rate it here, the managers and the organisation listen to you", "[rheolwr] is fabulous!, very calming voice, if there are any concerns I know I can speak to him, he is very supportive and he gets things done" a "Mencap are a good company to work for. They have great values"*

Mae'r gweithwyr gofal yn siarad yn angerddol am y gwaith y maent yn ei wneud. Gwnaethant ddweud wrthym *"I love working here, it is very rewarding and seeing the achievements of the people we support is magical", "I have no concerns, I am really happy working here" a "working with [X] is so rewarding. His achievements are great, and his confidence has really grown and he's doing really well"*.

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaethau yn effeithiol ac yn ymweld yn rheolaidd. Mae AGC wedi cael copïau o adroddiadau ymweliadau Rheoliad 73 ac adroddiadau ar adolygiadau o ansawdd y gofal sy'n dangos hyn. Mae'r bobl a'r staff yn cadarnhau bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth ac yn siarad â nhw yn ystod yr amser hwn. Cynhelir amrywiaeth o archwiliadau i lywio'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth.

Mae'r gweithwyr gofal yn mynd drwy broses recriwtio drylwyr. Mae'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn dangos y gofynnir am y gwiriadau a'r cliriadau priodol cyn i'r staff ddechrau eu cyflogaeth. Mae'r staff yn cael hyfforddiant sefydlu o ansawdd uchel am gyfnod o dri mis; cafodd hyn ei gadarnhau gan weithiwr gofal a oedd wedi dechrau ei gyflogaeth gyda'r sefydliad yn ddiweddar a'r cofnodion y gwnaethom eu darllen. Mae'r staff hefyd yn cael sesiynau goruchwyllo rheolaidd ac arfarniadau blynyddol ynghyd ag amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol ac arbenigol i'w cefnogi yn eu rolau.

Mae amrywiaeth o bolisiau, gweithdrefnau a chanllawiau ar gael yn hawdd i'r staff gyfeirio atynt. Caiff y rhain eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaethau a ddarperir yn gywir ac mae AGC yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddiwyddiadau drwy ei phroses hysbysu ar-lein.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 10/06/2024